

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Presennol: Y Cyngorwyr Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Branwen Haf

Cyhoedd: neb yn bresennol.

2176 Dymunodd y Cadeirydd flwyddyn newydd dda i bawb a diolchodd i'r aelodau am ddygymod mor dda gyda'r trefniadau newydd o dan amgylchiadau Covid 19. Diolchodd yn arbennig i bawb a aeth ati i oleuo ac addurno'r pentref dros gyfnod y Nadolig. Dywedodd fod llawer o drigolion wedi mynegi eu gwerthfawrogiad.

Diolchodd yn arbennig i Nia Heledd Jones am lunio Cyfarfod Gweddi'r Cyngor cyn cychwyn y cyfarfod, ac i bob aelod am gymryd rhan.

Datganodd Huw Antur fuddiant ym mater 2180, mynediad at Garth Bach.

2177 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb cyfarfod dros y we ar Ragfyr 1af 2020.

2178 Materion y Clerc:

- i. Sedd wag – cytunwyd i ofyn i enwebai i gymryd y sedd wag.
- ii. Cyflwr Llwybr y Cei - e-bostiwyd neges Gwyn Ll Evans yn mynegi ei fod yn trafod y mater gyda wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri.
- iii. Cais am fin baw ci ar ben uchaf Llwybr y Cei: ni chafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd hyd yn hyn a chytunodd Alan Jones Evans i holi ymhellach.
- iv. Ymateb i'r angen i glirio ardal Cynefin ym Maes y Pandy: dywedodd y swyddog ei mod wedi gyrru'r mater i sylw Cyswllt Cynefin i'w logio.
- v. Coed yn disgyn i Afon Lliw: mae'r goeden o dan pont Deildref wedi ei chlirio'n lleol erbyn hyn. Ymwelodd swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru ar 4/1/21, ond roedd o'r farn mai Cyngor Gwynedd fyddai'n gyfrifol am weithredu oherwydd fod y dorlan a'r coed wedi disgyn i'r afon rhwng Elusendai a Phwll y Pry. Addawodd Alan Jones Evans i gysylltu gydag Adran y Priffyrdd am y mater.

2179 Adroddiad Cyngor Gwynedd – Dywedodd y Cyngorydd Alan Jones Evans ei fod wedi trefnu cyn y Nadolig i'r gyli o flaen Ysgol O M Edwards gael ei chwistrellu. Mae'r draen yn gollwng ger mynedfa Bryn Awel oherwydd fod BT wedi gosod polyn trwy'r draen. Diolchodd i Dewi Rowlands, Cyngor Gwynedd, am drefnu jetio o gwmpas y polyn gan obeithio y byddai hynny yn atal llif ar y ffordd.

Dywedodd fod y Swyddog Hawliau Tramwy wedi cysylltu parthed cyllid sydd ar gael ar gyfer llwybrau gwastad cyfagos i bentrefi, a'i fod yn ystyried Llwybr y Cei a Llwybr Rhif 2 (o Glanaber a thu nol i'r pentref); efallai bydd yn bosib amnewid y camfeydd am gatiâu, gwella arwyddion, a chodi ymwybyddiaeth y plant trwy cyd-weithio gydag Ysgol O M Edwards.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Dywedodd ei fod mewn trafodaeth gyda Swyddog Gorfodaeth Stryd i godi ymwybyddiaeth am ddyletswyddau perchnogion parthed baw cŵn yn y pentref.

Bydd y lori ysgubo stryd yn mynychu'n fuan, a gofynnodd am gydwethrediad Cyngorwyr eleni eto i ofyn i drigolion symud eu cerbydau er mwyn gallu gwneud y gwaith yn effeithiol. Dywedodd ei fod yn gobeithio bydd y lori hefyd yn gallu sgubo'r palmentydd sy'n llithrig gan hen ddail.

Ar ran y Cyngor, diolchodd y Cadeirydd iddo am ei holl waith.

2180 Mynediad at Garth Bach – gan fod nifer wedi ymateb i'r cofnod blaenorol yn mynegi pryder dirfawr am atal / rhwystro mynediad at Garth Bach, cytunwyd i ofyn barn Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd am y mater. Cytunodd Alan Jones Evans i fod yn rhan o'r drafodaeth.

2181 Adroddiadau Paneli:

- i. Panel y Nadolig: Dywedodd Heledd Jones fod y gwaith o addurno'r pentref wedi bod yn llwyddiannus. Ymunodd 22 cartref yn y gystadleuaeth addurno ffenest a llongyfarchwyd Emma Jones, Maes y Pandy ar ddod i'r brig gan ennill hamper o fwyd a gyfrannwyd gan deulu'r Eagles. Diolchwyd i'r Eagles yn fawr iawn am y cyfraniad annisgwyl hwn. Oherwydd y clo sydyn, bu rhaid canslo ymweliad Sion Corn ar y funud olaf, ond fe gafodd pob un plentyn yn Ysgol O M Edwards y siocledi roedd Siôn Corn wedi bwriadu eu rhannu. Trefnwyd y Cyngerdd Nadolig ar y cyd gyda'r Ofalaeth Bro, ac fe'i darlledwyd ar YouTube. Diolchwyd i bawb a fu'n trefnu ac a gymerodd rhan. Mae copïau cd ar gael hefyd. Diolchwyd yn fawr iawn i Eilir Thomas am ganiatáu defnyddio trydan o'i gartref ar gyfer y goeden Nadolig. Diolchodd y Cyngor yn fawr iawn i Heledd Jones ac i'r panel bach gweithgar am eu gwaith arbennig, ac i unigolion a theuluoedd yn yr ardal a gyfrannodd yn hael i wneud yr uchod yn bosib. Diolchodd Arwel Lloyd Jones i bawb am eu gwaith yn rhannu'r bocsys bwyd. Diolchodd i Gwion Jones am ei gymorth gyda'r goeden Nadolig adeg y storm. Diolchwyd i Arwel Lloyd Jones ei hun am ei rôl allweddol yn sicrhau cyfraniadau lleol tuag at yr ymdrechion dros y Nadolig.
- ii. Cynllun Ardal: Dywedodd Huw Antur fod y Panel yn cyfarfod unwaith eto yn fuan. Mae dogfen fanwl Cylch yr Iaith ar dwristiaeth yn cynnig argymhellion ar sut mae'r Cyngor yn ymateb i geisiadau cynllunio. Diolchodd am ymateb y Clerc a Rhys Evans (Y Bala) i ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Eryri ar Lesiant. Cyfeiriodd hefyd at ddarnau perthnasol yn nogfen Hunaniaith ar risgiau i iaith a chymunedau (Menter Iaith Gwynedd). Mae'r Cyngor wedi llwyddo yn y cais i Barc Cenedlaethol Eryri i brynu teclynnau cofnodi hanesion/lleiau unigrwydd, a chymeradwywyd gwariant am weddill y gost gan y Cyngor. Diolchodd y Cadeirydd i'r Panel am y gwaith.
- iii. Cyfleusterau: Adroddodd Alwyn E Jones ei fod ef a Karl Jones wedi ymchwilio i beiriannau talu ar ddrysau pvc ond nid ydynt ar gael yn y wlad hon. Bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod i drafod hyn a threfniadau glanhau. Diolchwyd i'r Eagles am fynegi parodrwydd i gefnogi gyda defnyddiau glanhau. Disgwylir y trosglwyddiad ariannol rhwng Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf a'r Cyngor. Disgwylir yr anfoneb gan

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

yr adeiladwr er mwyn hawlio grant. Cytunodd Dewi Wyn Jones i wasanaethu ar yr Panel Cyfleusterau yn dilyn ymadawiad Karl Jones.

2182 Adroddiadau Cynghorwyr:

- i. Eiddew yn tyfu dros yr yw ym mynwent yr Eglwys: adroddodd y Cadeirydd bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau yn fuan iawn.
- ii. Y Gaiman: Adroddodd Beryl Hughes Griffiths ei bod dal mewn cysylltiad cyson gyda Ricardo Evans.

2183 Materion ariannol:

- i. Y sefyllfa ariannol: Diolchwyd i Bethan Edwards am e-bostio manylion derbyniadau a thaliadau. Cymeradwywyd talu Swyddfa Archwilio Cymru: £242.15; Goleuadau coeden y Gilfach: £53.97; Costau Swyddfa £240.00; Dŵr Cymru (Toiledau):£138.46; Cyflog y Clerc a CThEM. Derbyniodd Cronfa'r fynwent rodd ariannol tuag at gynnal y fynwent a diolchwyd amdano. Cytunwyd i ymholi ymhellach yng nglyn â phrisiau cynnal y fynwent.
- ii. Cyflwynodd Dewi Wyn Jones adroddiad yr is-bwyllgor Cyllid a'r Gyllideb (e-bostiwyd), a chytunwyd gyda'r argymhelliad o £14,000 ar gyfer y Praesept.
- iii. Atgoffwyd cymdeithasau ei bod yn arferol i wneud dyraniadau ariannol ym mis Chwefror. Atgoffwyd am yr angen i gynnwys mantolen gyda phob cais yng nghyd a gwybodaeth ac anfonebau ar sut y gwariwyd dyraniadau llynedd. Oherwydd amgylchiadau arbennig Covid yn rhwystro gweithgareddau cymunedol, derbyniwyd y cynnig ein bod yn ystyried unrhyw geisiadau a ddaw i law yn Chwefror, ond hefyd yn gohirio dyrannu'r gyllideb yn llwyr tan y flwyddyn ariannol nesaf, gan obeithio y bydd cyfle i ail afael mewn gweithgarwch cymunedol yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-22.

2184 Ceisiadau Cynllunio: Nid oedd ceisiadau wedi dod i law.

2185 Materion lleol Cynghorwyr:

- i. Jetio draeniau wrth Ysgol O M Edwards a Bryn Awel (gweler adroddiad Alan Jones Evans, uchod)
- ii. Mae canllawiau pont Llanuwchllyn yn rhydu ac angen sylw. Cytunodd Alan Jones Evans i dynnu sylw'r Adran Briffyrdd a Phontydd at hyn.
- iii. Ffens y fynwent ochr yr ysgol o'r fynwent: diolchwyd i'r cymwynaswr sydd wedi codi a chlymu'r rhan o'r ffens weiren a oedd wedi dod lawr. Mae bwriad yn y dyfodol i baentio'r *railings* yr ochr hon i'r fynwent, ac fe roddir ystyriaeth bellach i'r ffens weiren yr adeg honno.

2186 Gohebiaeth: Diolchwyd am adroddiad Cylch yr Iaith ar dwristiaeth (e-bostiwyd). Bydd ei gynnwys yn cyfrannu tuag at Gynllun Ardal Cyngor Cymuned Llanuwchllyn.

2187 Partneriaeth Penlllyn – nid oedd adroddiad gan y cynrychiolwyr y tro hwn.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: TEAMS 2/2/21.

Ystyrir ceisiadau am nawdd yn y cyfarfod hwn, ond bydd cyfle i wneud cais eto yn ystod y flwyddyn.